**EITEM AR YR AGENDA: 10**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
# PANEL GWEITHREDOL

**13 Chwefror 2017**

**CYDYMFFURFIO Â SAFONAU'R GYMRAEG**

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd mewn perthynas ag adroddiad Monitro'r Gymraeg 2015-16 gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a briffio mewn perthynas â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

## Cefndir

2 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru lunio adroddiad manwl sy'n nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â chyrraedd y targedau a amlinellir yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth. Cyflwynir hwn i Gomisiynydd y Gymraeg dan y trefniadau o ganlyniad i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

3 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) yn gosod y fframwaith cyfreithiol sydd yn ei le i gyflwyno dyletswyddau lle mae sefydliadau'n cydymffurfio â Safonau statudol yn ymwneud â'r Gymraeg.

4 Ym mis Medi 2017, cafodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, ynghyd â gwasanaethau tân ac achub eraill a heddluoedd yng Nghymru, hysbysiad swyddogol o Safonau'r Gymraeg y bydd yn rhaid iddo nawr gydymffurfio â nhw. Daw'r Safonau hyn, sy'n cael eu rheoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg, i rym ar 30 Mawrth 2017 ac maent yn cymryd lle hen system y Cynlluniau Iaith.

**Gwybodaeth**

5 Unwaith eto, dyma gyfnod pryd y mae Gwasanaeth Tân ac Achub wedi gwneud cryn gynnydd mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r canfyddiadau cadarnhaol allweddol a nodir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2015-16 yn cynnwys y canlynol:

- er gwaethaf gostyngiad pellach ym maint ei weithlu, mae cyfran y staff sydd â sgiliau siarad Cymraeg sy'n cyrraedd y safon ddynodedig wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn. Ar yr un pryd, mae cyfran y staff sydd heb fod â'r sgiliau angenrheidiol neu sy'n aros ar y lefelau isaf bosibl wedi parhau i ostwng.
- mae canran y staff sy'n cyrraedd y lefel ofynnol o sgiliau o leiaf (Lefel 2 neu uwch) yn parhau i gynyddu – a nifer y deiliaid swyddi sydd â sgiliau lefel uwch hefyd yn parhau i godi.
- bu cynnydd sylweddol yn y gydymffurfiaeth â'r gofyniad o ran y Gymraeg ar gyfer pob swydd yn 2016.
- yn galonogol, ar ôl ymgyrch ar y cyd i godi ymwybyddiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn digwyddiadau, cafwyd mymryn o welliant yn nifer yr Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref a gynhaliwyd drwy gyfrwng y Gymraeg, sef rhywbeth a oedd wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y tair blynedd flaenorol.
- mae nifer y cyflwyniadau i ysgolion a gynhaliwyd drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu'n fawr.

6 Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth yn ei gwneud yn amod fod gofyn i bob aelod newydd o'r staff a'r rhai sy'n llwyddo i gael dyrchafiad ddysgu Cymraeg sgyrsiol hyd at safon Lefel 2 yn ein rhaglen gryno-ddisgiau, ac mae hyn wedi parhau i gael ei hyrwyddo'n llwyddiannus ymysg y staff yn ystod 2015-16. Mae'r Gwasanaeth yn parhau i gefnogi aelodau o'r staff sy'n dymuno mynychu cyrsiau yn eu cymuned leol yn hytrach na chyrsiau mewnol, ac mae'n cefnogi'r hyfforddiant Datblygu Sgiliau Cymraeg i Reolwyr.

7 Mae'r Adroddiad Monitro hefyd yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed o ran hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle yn ogystal â darparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad parhaus y Gwasanaeth i ganfod a chefnogi Hyrwyddwyr y Gymraeg ledled y rhanbarth, sy'n parhau i fentora pobl eraill ac sy'n cael arweiniad a chymorth i helpu i hyrwyddo'r iaith ac i hwyluso ei dysgu.

8 Fe wnaeth Aelodau'r Panel Gweithredol gymeradwyo Adroddiad Monitro Blynyddol 2015-16 yn ei gyfarfod fis Gorffennaf diwethaf, a chafodd hwnnw ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg. Yna, gofynnodd y Comisiynydd am ragor o wybodaeth am nifer o agweddau penodol ar y gwaith y cyfeirir ato yn yr adroddiad, a darparwyd hyn yn fanwl wrth fodd y Comisiynydd.

9 Mae'r Gwasanaeth nawr yn gweithio tuag at gyflawni gofynion y Safonau newydd a ddaw i rym ar 30 Mawrth 2017, ac mae'n gwneud hynny ar y cyd â'r ddau wasanaeth tân ac achub arall yng Nghymru tra hefyd yn rhannu arferion da â Heddlu Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Mae llawer o'r safonau'n pennu gofynion y mae'r Gwasanaeth eisoes yn cydymffurfio â nhw.

10 Yn Ionawr 2017, cafodd yr Ymgyrch 'Bwrwch Ati!' ei lansio a'i phwysleisio ymhob rhan y Gwasanaeth, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth a hysbysu'r staff beth yn union yw'r cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Safonau. Bu penaethiaid adrannau'n gweithio fel rhan o Fforwm y Gymraeg i baratoi i gydymffurfio â'r Safonau.

11 Ceir manylion y Safonau sy'n benodol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar y wefan www.gwastan-gogcymru.org.uk.

**ARGYMHELLION**

12 Bod yr Aelodau'n nodi:

(i) y cynnydd a wnaed mewn perthynas ag Adroddiad Monitro Blynyddol y Gwasanaeth 2015-16 a'i ymrwymiad i sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg ac yn monitro'r cynnydd yn y maes hwn;

(ii) bod y paratoadau yn eu lle i gyflawni gofynion Safonau newydd y Gymraeg a ddaw i rym ym Mawrth 2017.